***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 1565

# Gorchymyn Grymuso Harbwr Saundersfoot 2011

## RHAN 6

RHEOLI GWEITHIAU A CHARTHU

**Ni cheir cyflawni gweithiau llanwol heb gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru**

**46.**—(1) Ni cheir adeiladu, ailadeiladu, estyn, newid, ehangu, amnewid neu ailosod unrhyw waith llanwol ac eithrio'n unol â phlaniau a thrychiadau a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru ac yn ddarostyngedig i unrhyw amodau a chyfyngiadau a osodwyd ganddynt cyn dechrau'r gwaith.

(2) Os caiff gwaith llanwol ei adeiladu, ailadeiladu, estyn, newid, ehangu, amnewid neu ei ailosod yn groes i baragraff (1) neu'n groes i unrhyw amod neu gyfyngiad a osodwyd o dan y paragraff hwnnw—

(a) caiff Gweinidogion Cymru, drwy hysbysiad ysgrifenedig, ei gwneud yn ofynnol bod y Comisiynwyr, ar eu traul eu hunain, yn symud ymaith y gwaith llanwol, neu unrhyw ran ohono, ac yn adfer y safle i'w gyflwr blaenorol; ac os bydd y Comisiynwyr, ar ddiwedd cyfnod o 30 diwrnod o'r dyddiad y cyflwynwyd yr hysbysiad i'r Comisiynwyr, wedi methu â chydymffurfio â gofynion yr hysbysiad, caiff Gweinidogion Cymru gyflawni'r gweithiau a bennir yn yr hysbysiad; neu

(b) os yw'n ymddangos i Weinidogion Cymru bod angen gwneud hynny ar frys, caiff Gweinidogion Cymru symud ymaith y gwaith llanwol, neu ran ohono, ac adfer y safle i'w gyflwr blaenorol,

a chânt adennill oddi ar y Comisiynwyr unrhyw wariant a achosir iddynt drwy wneud hynny.